
# Harbwr Diogel 8

# Calm Waters 8



## Gwybodaeth

## Information

www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

# Harbwr Diogel 8

**Mae harbyrau Cyngor Sir Ceredigion yn Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd yn atyniadau ac adnoddau gwych o'u rhan eu hunain. Er mwyn gwneud yn siŵr bod pethau'n dawel yn yr harbyrau a'u bod yn parhau'n ddiogel, deniadol a dymunol i bawb rydym yn atgoffa defnyddwyr o rai pethau allweddol y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohonynt, a'u bod yn eu gweithredu.**



## Cofiwch:

1. Fod yn ystyriol a pharchus bob amser o holl ddefnyddwyr eraill yr harbyrau a'r cyhoedd.
2. Bod yn ystyriol a pharchus bob amser o fywyd gwyllt lleol, a'i werthfawrogi.
3. Gwneud yn siŵr bod eich cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ei fod mewn cyflwr da ac yn addas i'r diben. Mae hyn yn cynnwys offer angori, cadwyni, rhaffau, angorau a dyfeisiau angori eraill. Dylech wirio'r rhain i gyd yn rheolaidd.
4. Ymdrin â'ch holl wastraff yn gyfrifol a chyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys ac yn rhychwantu offer pysgota wedi'i ddefnyddio ac olew gwastraff.
5. Storio'r holl gyfarpar yn ddiogel ac mewn man priodol. Mae hyn yn cynnwys cychod tendio, bwiau, potiau a chyfarpar pysgota arall.
6. Peidio ag achosi rhwystr neu niwsans naill ai ar ochr sych neu wlyb yr harbyrau. Mewn argyfwng, gallai mynediad clir fod yn hanfodol. Dylech barcio ceir yn unol â threfniadau'r lle a'r ddarpariaeth sydd yno.
7. Ymateb yn gadarnhaol i gyngor neu gyfarwyddyd a roddir gan unrhyw un o staff yr Harbyrau.
8. Codi unrhyw fater, pryder neu awgrym a all fod gennych gyda staff yr Harbyrau ar y cyfle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar unrhyw ddiffyg neu ddifrod y gallwch ddod yn ymwybodol ohono yn yr harbyrau.
9. Cysylltu â 999 mewn unrhyw fath o argyfwng.

**Rheolir yr Harbyrau yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion.**

- Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion,
- Is-ddeddfau,
- Cyrsiau a Phellteroedd Morol,
- Tablau Llanw Lleol,
- Arfordir Treftadaeth Forol Ceredigion, Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau,
- Anifeiliaid Morol yn Sownd ar Lan y Môr, a
- Diogelwch

Gellir cael y wybodaeth uchod yn: Yr Arfordir a Phorthladdoedd

**Dylai Defnyddwyr Harbyrau ymgyfarwyddo â'r wybodaeth hon i gyd a gwneud yn siŵr eu bod yn ymddwyn yn unol â hynny bob amser. Mae'r dogfennau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd felly dylid eu gwirio'n gyson.**

**Diweddariadau:**

### (1) Staff

Bu newidiadau yn ddiweddar o fewn ein tîm. Mae Chay Sanders – Arweinydd Gwaith yr Harbyrau a Chris Cattaway – Cynorthwy-ydd Tymhorol yr Harbyrau, wedi symud ymlaen o'u swyddi nhw. Rydym wrthi'n recriwtio ar gyfer y swyddi hyn a byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi pan fydd aelodau newydd gennym yn y tîm.

### (2) Y Pontŵn canolog yn Aberystwyth

Yn ddiweddar gwnaeth contractwr gynnal arolygiad o'r Pontŵn canolog yn Harbwr Aberystwyth drwy ddeifio i'r dŵr, ac rydym yn disgwyl am adroddiad ar ei gyflwr. Bydd adroddiad y contractwr ar y cyflwr yn hwyluso penderfyniadau Awdurdod yr Harbwr ynghylch dyfodol yr ased. Rhoddir diweddariad unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael.

### (3) Gwaith cynnal a chadw sydd ar y gweill ac wedi ei gwblhau

Mae'r gwaith o garthu rhannau allweddol o Harbwr Ceinewydd wedi ei drefnu ar gyfer 27 Mawrth 2025. Mae Hysbysiad Lleol i Forwyr CN rhif 02.25 wedi ei gyhoeddi i roi gwybod am y gwaith.

Dros gyfnod y gaeaf paratowyd manyleb gynhwysfawr ar gyfer gwaith ar y pwyntiau a'r cylchoedd angori ac ar gyfer gosod cylchoedd a chadwyni angori mewn rhannau o Harbwr Ceinewydd. Ar hyn o bryd mae Awdurdod yr Harbwr yn aros i'r broses gaffael orffen.

Ymhlith y tasgau arall sydd ar y gweill:

- Tynnu boncyffion a mân bethau o Harbwr Aberaeron, wedi'i gynllunio ar gyfer y gorllanw ddiwedd mis Mawrth.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd o ran cynnal a chadw'r marcwyr mordwyo yn Aberystwyth a Cheinewydd, caffael ar gyfer Marc Cardinal Gogledd Carreg Ina, a chynnal a chadw marcwyr yn Aberystwyth. Rydym yn gobeithio y bydd llong a chriw yn gallu cwblhau'r gwaith hwn ym mis Mai neu fis Mehefin.
- Mae gwaith caffael ar gyfer cynnal a chadw'r rheiliau yng Ngheinewydd ac Aberystwyth yn parhau. Gobeithio y gellir cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Mai neu fis Mehefin.

### (4) Tystysgrif Harbwrfeistr y DU

Rydym yn falch o gyhoeddi fod Owen Morgan, ein Rheolwr Harbyrau, wedi llwyddo i gael Tystysgrif Harbwrfeistr y DU.

Dyfarnir Tystysgrif Harbwrfeistr y DU i ymgeisydd sy'n dangos hyfedredd, gwybodaeth a dealltwriaeth o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yr Harbwrfeistri. Caiff y dystysgrif hon ei chydnabod yn swyddogol gan yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau (MCA) a'r Adran Drafnidiaeth (DfT).

Er mwyn ennill y dystysgrif hon, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth a'u profiad ymarferol ar draws 17 o fodiwlau'r Safonau Galwedigaethol. Mae'r modiwlau hyn yn ymdrin â meysydd megis rheoli diogelwch morol mewn porthladd, ymchwilio i ddigwyddiadau ar y môr a rheoli traffig cychod mewn porthladdoedd. Ar y diwedd rhoddir prawf yn harbwr Poole a gwnaeth Owen gwblhau hwn yn llwyddiannus yn Rhagfyr 2024. Fel y mae yn Rhagfyr 2024, mae Owen ymhlith dim ond 52 o ddeiliaid y dystysgrif yn y Deyrnas Unedig gyfan.

Hoffem longyfarch Owen ar gyflawni hyn a'i ymroddiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Y gobaith yw y bydd y cymhwyster yn ei gefnogi ymhellach yn ei rôl o reoli a datblygu'r Gwasanaeth Harbyrau at y dyfodol.

### (5) Cyfarfodydd Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau

Bydd cyfarfodydd nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau yn cael eu cynnal ar 27 Mawrth 2025 ac yn cael eu cynnal yn rhithiol dros Teams.

17:30 Aberaeron

18:15 Ceinewydd

19:00 Aberystwyth

Er bod y Pwyllgor yn rhoi'r cyfle i drafod materion, mae llawer o ffyrdd y gall rhanddeiliaid gysylltu â'r Gwasanaeth Harbyrau drwy gydol y flwyddyn ynghylch materion o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys trafod wyneb yn wyneb wrth un o'r Harbyrau neu drwy Clic, sef canolfan gyswllt y Cyngor: clic@ceredigion.gov.uk / 01545 570881. Rydym yn annog rhanddeiliad i gysylltu fel y gallwn ddatrys materion yn brydlon.

### (6) Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron

Bwriedir i Gynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron ddod i ben yn ystod gwanwyn 2025. Cafodd cylchlythyr ei gyhoeddi gan y contractwr ym mis Chwefror.

Mae Awdurdod yr Harbwr wedi bod yn ymwneud â'r cynllun a Trinity House ynglŷn â'r cymhorthion mordwyo terfynol ar gyfer ceg yr Harbwr. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu cynnwys mewn Hysbysiad Lleol i Forwyr maes o law.

### (7) Cychod a badau neu offer eraill sy'n peri niwed i amwynder yr Harbwr

Yn unol â Pholisi Rheoli Harbyrau Ceredigion, rhaid i ddeiliaid angorfeydd yr harbwr a defnyddwyr ehangach yr harbwr sicrhau bod eu cychod/badau neu eu hoffer yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac yn addas i'r môr bob amser wrth gael eu defnyddio, eu hangori o fewn terfynau'r harbwr, neu eu storio ar ystâd yr harbwr.

Byddai cwch neu unrhyw fath arall o fad neu offer yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod yn un niweidiol i amwynder yr harbwr neu i eiddo arall y Cyngor, am y rhesymau canlynol, heb gynnwys popeth: ei fod mewn cyflwr gwael, yn salw oherwydd esgeulustod, yn ddifrifol o ddi-raen, yn anaddas ar gyfer y môr neu mewn perygl o suddo. Os digwydd hyn, gall Awdurdod yr Harbwr gyflwyno Hysbysiad i atal

y niwed. O fethu â chydymffurfio â Hysbysiad o'r fath, gellir terfynu'r cytundeb angori a bydd yr Awdurdod yn tynnu'r cwch o'r Harbwr. Codir tâl ar ddeiliad yr angorfa am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hyn.

### (8) Cadw'n ddiogel ar y dŵr: Pwysigrwydd defnyddio cordyn diffodd injan

Wrth i ni barhau i flaenoriaethu diogelwch yn harbyrau Ceredigion, hoffem atgoffa holl ddefnyddwyr yr harbyrau mor bwysig yw defnyddio cordyn diffodd injan. Mae cordyn diffodd injan, a elwir hefyd yn laniard diogelwch neu switsh i ladd yr injan, yn ddyfais syml ond pwysig a gynlluniwyd i ddiffodd injan cwch os yw'r gyrrwr yn colli rheolaeth neu'n cael ei daflu o'r llyw.

<u>Pam defnyddio cordyn diffodd injan?</u>

1. **Atal Cwch rhag Dianc heb Reolaeth:** Os yw llywiwr y cwch yn cael ei dynnu bant o'r llyw, mae'r cordyn yn diffodd yr injan ar unwaith gan atal y cwch rhag bod yn berygl i eraill yn y dŵr.
2. **Hybu Diogelwch:** Drwy stopio'r injan mae'r cordyn yn helpu i osgoi damweiniau ac anafiadau difrifol, gan sicrhau amgylchedd mwy diogel i bawb ar fwrdd y cwch ac yn y cyffiniau.
3. **Syml ac Effeithiol:** Mae'r ddyfais yma yn rhad ac yn hawdd i'w defnyddio a gall wneud gwahaniaeth mawr mewn argyfwng.

<u>Sut mae defnyddio cordyn diffodd injan?</u>

**Cysylltu'r cordyn yn sownd:** Clymwch y cordyn yn sownd bob amser am eich coes, garddwrn neu siaced bywyd cyn cychwyn yr injan.

**Gwirio'n rheolaidd:** Gwiriwch eich cordyn diffodd injan yn rheolaidd i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn. Archwiliwch ef rhag ofn ei fod wedi treulio a rhowch un newydd yn ei le os oes angen.

**Y Wybodaeth ddiweddaraf:** Ymgyfarwyddwch â'r dull o ddefnyddio cortynnau diffodd injan yn gywir a gwnewch yn siŵr fod pob teithiwr yn gwybod am eu pwysigrwydd.

Drwy ddefnyddio cortynnau diffodd injan yn gyson, gallwn oll gyfrannu at brofiad hwylio saffach yn harbyrau Ceredigion. Dewch inni weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein dyfroedd yn ddiogel ac yn ddymunol i bawb.



### (9) Cymhorthfeydd yr Harbyrau

Mae cyfarfodydd cymorth wedi'u trefnu i bob Harbwr er mwyn i ddefnyddwyr yr harbyrau drafod gyda Rheolwr yr Harbwr (neu Arweinydd Gwaith yr Harbyrau) unrhyw broblemau neu faterion sy'n codi a hynny wyneb yn wyneb.

Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfa harbwr pob lleoliad fel a ganlyn, heblaw am fis Hydref a mis Mawrth:

Aberystwyth – dydd Mawrth olaf pob mis am 14:00

Aberaeron – dydd Mercher olaf pob mis am 14:00

Ceinewydd – dydd Iau olaf pob mis am 14:00

Hysbysir defnyddwyr yr harbyrau o unrhyw newidiadau i'r amserlen hon.

### (10) Cysylltu a rhoi Adborth

Sylwer: Nid yw'r blwch post gwasanaethau technegol bellach yn cael ei ddefnyddio ac nid yw'n cael ei fonitro.

Os hoffech gysylltu â'r Gwasanaeth Harbyrau, gallwch wneud hynny drwy:

E-bost: clic@ceredigion.gov.uk
Ffôn: 01545 570 881
Post: Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

Rydym bob amser yn croesawu ac yn annog adborth adeiladol gan randdeiliaid ac edrychwn ymlaen at glywed wrthych.

**Gyda diolch,**


**Y Tîm Harbyrau**

*Owen Morgan AFNI, Rheolwr yr Harbyrau*

*Robyn Beresford, Cynorthwy-ydd Tymhorol yr Harbyrau*

# Harbwr Diogel 8

## Calm Waters 8



www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion